**Dyddiad:** **Dydd Mercher 2 Mai 2001**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

## Pwrpas

1. Dilyniant i'r cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fis Ebrill 2000 (HSS-09-00 (p.3)), a chyfle i holi rheolwyr yr ymddiriedolaeth am yr hyn a wnaed y llynedd a'u cynlluniau at y dyfodol.

## Cefndir

2. Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau argyfwng a chludo cleifion ar hyd Cymru benbaladr, ac yn cyflogi dros 1000 o staff damwain ac argyfwng. Yn 1999-2000 roedd ganddynt drosiant o £63 miliwn. Maent yn ymateb i tua 800 o alwadau y dydd, ac o'r rheini mae 38% yn "gategori A" (sef sefyllfaoedd lle mae perygl difrifol i fywyd).

3. Mae llawer wedi'i wneud ers cyfarfod diwethaf yr ymddiriedolaeth â'r Pwyllgor. Mae fframwaith rheoli yr ymddiriedolaeth wedi cael ei ail-wampio yn llwyddiannus er mwyn medru canolbwyntio'n well ac i wella effeithiolrwydd, mae eu perfformiad yn erbyn safon 8-munud "categori A" wedi gwella ac mae cynllun adfer ariannol wedi'i gytuno gyda'r Cynulliad (ac ar y gweill). Mae'r ymddiriedolaeth wedi lansio gwasanaeth ambiwlans awyr ac mae wedi gwneud llawer o ran ad-drefnu'r canolfannau rheoli. Cyn bo hir bydd deg o gerbydau ymateb cyflym, a brynwyd gyda chyllid oddi wrth y Cynulliad, yn cael eu defnyddio, a bydd adolygiad a gomisiynwyd gan ymgynghorwyr yn ddiweddar yn helpu'r ymddiriedolaeth ddatblygu dull deinamig o ddefnyddio cerbydau a chriwiau gyda nod o wella perfformiad fwy fyth.

## Ad-drefnu

4. Pan sefydlwyd yr ymddiriedolaeth hon ar gyfer Cymru yn 1998, cadwyd at strwythur rhanbarthol yn seiliedig ar y cyrff blaenorol, sef tri rhanbarth a phob un gyda'i fframwaith rheoli ei hun. Erbyn hyn, mae'r ymddiriedolaeth wedi cael ei had-drefnu gan ddiddymu - i bob pwrpas – yr haen ranbarthol hon o reolaeth er mwyn cryfhau a chanolbwyntio ar gyflwyno gweithrediadau, gwella atebolrwydd, a chymryd camau pellach tuag at lunio un ymddiriedolaeth a gwneud y gorau o'r swm sy'n cael ei wario ar roi gofal uniongyrchol i gleifion. Mae'r ad-drefnu wedi golygu cael gwared â 48 o staff trwy wastraff naturiol a threfniadau diswyddo, adleoli rhai staff a throsglwyddo'r cyfrifoldeb i'r pencadlys, a'r cwbl mewn trafodaeth lawn gyda chynrychiolwyr staff. Ni wnaeth y newidiadau hyn effeithio rhyw lawer ar y staff gweithredol.

## Materion cyllidol

5. Mae'r ymddiriedolaeth yn proffwydo diffyg o £2.750 miliwn yn yr incwm a gwariant ar gyfer 2000-01, ac mae £2 filiwn ohono yn gostau ad-drefnu y cytunwyd arno gyda'r Cynulliad. Mae'r ymddiriedolaeth wedi paratoi cynllun adfer ariannol gyda'r nod o fod mewn sefyllfa ariannol iach erbyn diwedd 2002-03. Mae gwasanaethau

ambiwlans argyfwng yn cael eu comisiynu gan yr awdurdodau iechyd, sydd wedi neilltuo £1.9 miliwn y flwyddyn i wella perfformiad.

**Perfformiad**

6. Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn anelu at gwrdd â phedair safon perfformiad:

- ymateb i alwadau lle'r oedd bywyd mewn perygl difrifol (Categori A) o fewn 8 munud, er na fydd hynny o reidrwydd yn golygu ambiwlans gyda'r holl offer;
- yn yr achosion hynny lle nad yw'r ymateb cyntaf i alwad Categori A yn ambiwlans gyda'r holl offer, i ddilyn gydag ambiwlans o'r fath o fewn 14,18 neu 21 munud yn y drefn honno mewn ardaloedd trefol, gwledig neu brin eu poblogaeth;
- i ymateb i bob galwad frys arall o fewn 14,18 neu 21 munud, a
- chyrraedd galwadau brys meddygon ddim hwyrach na 15 munud wedi'r amser cyrraedd y gofynnwyd amdano.

7. Mae gwybodaeth am berfformiad yn erbyn pob un o'r safonau hyn yn cael ei chasglu'n chwarterol fesul ardal awdurdod iechyd ac ardal awdurdod unedol. Y targed ar gyfer cyrraedd y tair safon olaf yw 95%, ac ar hyn o bryd mae'r ymddiriedolaeth yn cyflawni trwch blewyn o dan hyn ar gyfer y safonau argyfwng (tua 92% a 91% yn eu trefn), a chyrhaeddwyd 86% o'r safon sy'n ymwneud â galwadau brys meddygon. Mae cryn amrywiaeth rhwng yr ardaloedd.

8. Mae'r safon 8-munud ar gyfer achosion lle mae bywyd mewn perygl yn allweddol i ymateb i broblemau'r galon a phroblemau eraill. Y targed a osodwyd yn 1999 ar gyfer y safon hon oedd y dylid ei gyflawni i lefel o 75% erbyn diwedd 2001. Ledled Cymru cafwyd cryn welliant y llynedd (50% fis Hydref – Rhagfyr 2000 o gymharu â 46% yn ystod yr un cyfnod yn 1999) ond – fel yn achos y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau ambiwlans Lloegr – mae cyrraedd y targed hwn erbyn y dyddiad arfaethedig yn amlwg yn afrealistig. Mae cryn wahaniaeth ym mherfformiad ardaloedd yr awdurdodau unedol; mae hyn yn ymwneud â nifer o ffactorau fel y galw am y gwasanaeth, cyfluniad ardaloedd trefol ac ysbytai, daearyddiaeth a'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Cymorth gan y Cynulliad**

9. Fis Hydref 2000, rhoddodd y Cynulliad Cenedlaethol £0.5 miliwn yn uniongyrchol i'r ymddiriedolaeth i helpu i wella perfformiad yn erbyn y targed 8-munud a materion perthnasol. Defnyddiwyd y cymorth hwn i brynu 10 o gerbydau ymateb cyflym – cerbydau gydag offer sy'n medru cyrraedd galwyr yn gyflym ond na all gario cleifion – ac mae parafeddygon eisoes yn cael eu hyfforddi yn y gobaith y gellir defnyddio'r holl gerbydau erbyn diwedd Mehefin. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio hefyd i brynu 50 o offer diffibrilio a lifrai ychwanegol ar gyfer ymatebwyr cyntaf, a diweddaru'r system fapio yn Rhanbarth y De Ddwyrain. Mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr staff a'r rheolwyr yn ystod y flwyddyn.

**Adroddiad yr ymgynghorwyr ar ddefnyddio adnoddau'n effeithiol**

10. Ar ran yr ymddiriedolaeth, comisiynodd y Cynulliad hefyd ymgynghorwyr arbenigol i archwilio beth fyddai'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau gan gynnwys ambiwlansys, criwiau a'r cerbydau ymateb cyflym newydd. Mae gan yr ymgynghorwyr a ddewiswyd gyfoeth o wybodaeth sydd wedi'i gael wrth wneud gwaith tebyg ar gyfer sawl rhanbarth yn Lloegr. Mae eu hadroddiad yn nodi'r llefydd gorau i leoli cerbydau a chriwiau er mwyn gwella

perfformiad, ac yn awgrymu pa adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'r safonau ym mhob ardal awdurdod unedol. Dylai eu hargymhellion helpu i wella perfformiad, er eu bod yn nodi bod y gwasanaethau, ar y cyfan, yn cael eu darparu'n gost-effeithiol eisoes, ac mae cyllid diweddar gan yr awdurdod iechyd yn cael ei ddefnyddio'n eang, ac yn effeithiol ac effeithlon. Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar gyfer yr Adolygiad Dyrannu Adnoddau, gan fod ei gylch gwaith yn cynnwys ariannu ambiwlansys a materion cydraddoldeb.

**Ambiwlans Awyr**

11. Fis Mawrth 2001, cafodd ambiwlans awyr ei lansio ym maes awyr Abertawe. Bydd yr hofrennydd yn cael ei hedfan gan griw hyfforddedig ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith ambiwlans yn unig. Mae'r AA yn ariannu'r gwasanaeth yn llwyr am 12 mis o 1 Mawrth 2001 ac ar hyn o bryd mae ymrwymiad i ddarparu 75% o gyllid am 6 mis ar ôl hynny, fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2002. Mae posibilrwydd y gellir ymestyn hyn. Mae'r gwaith o godi arian yn nwylo ymddiriedolaeth elusennol ac nid oes gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans unrhyw ran yn y broses hon.

**Cyfarwyddwr Meddygol ac Uwch Ddarlithydd**

12. Cytunwyd i gyllido swydd fydd yn cyfuno cyfarwyddwr meddygol yr ymddiriedolaeth ac uwch-ddarlithydd mewn gofal argyfwng cyn-ysbyty gyda Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a fyddai'n cwmpasu meysydd fel dadebru a'r ymatebion cyntaf i argyfyngau i leihau eu difrifoldeb. Dyma'r cyntaf ym Mhrydain a bydd yn rhoi Cymru ar flaen y gad ym maes ymchwil i ofal cyn-ysbyty.

**Gwasanaethau Cludo Cleifion**

13. Mae swyddi cenedlaethol a rhanbarthol wedi cael eu creu i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cludo cleifion (h.y. cludo cleifion sydd heb fod yn rhai argyfwng rhwng ysbytai, a rhwng y cartref a'r ysbyty). Mae'r gwasanaethau cludo cleifion yn cael eu comisiynu gan y gwahanol Ymddiriedolaethau NHS.

**Ystafelloedd Rheoli**

14. Strategaeth yr Ymddiriedolaeth yw bod yr ystafelloedd rheoli yng Nghymru yn cael eu huno'n dair o fewn cyfnod o bum mlynedd.

**Arfer Gorau/Rhannu Gwerth**

15. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau argyfwng eraill i archwilio materion gwerth gorau, fel trefniadau ar y cyd gyda Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r fflyd, a phwrcasu ar y cyd gyda'r gwasanaethau argyfwng eraill.

**Goblygiadau Ariannol**

16. Er gwybodaeth yn unig y mae'r papur hwn. Nid oes goblygiadau ariannol i'r Cynulliad.

**Cydymffurfiaeth**

17. Nid oes unrhyw faterion o briodoldeb neu reoleidd-dra.

Swyddog Cyswllt – Jamie Jenkins, Is-adran Rheoli Perfformiad est. 5306

Jane Hutt